




The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Apeliadau Hybysiad Amnewid Coed





## Atodiad 14

### Apeliadau Hysbysiad Amnewid Coed (TRN)

1. O dan adran 206(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd (Deddf 1990), mae gan dirfeddiannwr ddyletswydd i amnewid coeden sy'n cael ei thorri yn groes i Orchymyn Diogelu Coed (TPO). Lle na chydymffurfir â'r ddyletswydd, mae gan Awdurdodau Lleol rymoedd, o dan adran 207 y Ddeddf, i gyhoeddi Hysbysiad Amnewid Coed (TRN). Defnyddir y grymoedd hyn hefyd pan fydd coeden yn cael ei thorri mewn Ardal Gadwraeth yn groes i adran 211 Deddf 1990 (h.y. heb roi chwe wythnos o rybudd i'r cyngor), ac mewn amgylchiadau lle na chydymffurfir ag amod i blannu coeden arall yn lle coeden sy'n cael ei thorri yn rhan o ganiatâd a roddwyd o dan TPO. Mae Adran 208 Deddf 1990 yn rhoi'r hawl i bobl y rhoddwyd TRN iddynt apelio at Weinidogion Cymru.

### 2. A oes gennyf hawl i apelio?

2.1 Gallwch chi, neu asiant sy'n gweithredu ar eich rhan, apelio os chi oedd y sawl y rhoddwyd TRN iddo.

### 3. Rhesymau dros yr apêl

3.1 Mae'n rhaid i apêl yn erbyn TRN gael ei chyflwyno ar seiliau penodol fel y'u hamlinellir yn adran 208 Deddf 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991. Dyma'r rhesymau statudol dros apêl:

- Nad yw'r ddyletswydd i amnewid y goeden yn berthnasol neu y cydymffurfiwyd â hi.
- Y dylai'r ddyletswydd i amnewid y goeden gael ei hepgor yn holl amgylchiadau'r achos.
- Bod gofynion y TRN yn afresymol o ran (i) maint y goeden, neu (ii) rhywogaeth y goeden, neu (iii) y cyfnod a roddwyd.
- Bod plannu'r goeden yn unol â'r TRN (i) yn ddiangen o safbwynt amwynder, neu (ii) y byddai'n groes i arfer coedwigaeth dda.
- Bod y man lle y mynnir bod y goeden neu'r coed yn cael ei phlannu/eu plannu yn anaddas i'r diben hwnnw.

### 4. Sut gallaf apelio?

4.1 Dylech gyflwyno'ch apêl gan ddefnyddio'r ffurflen apêl TRN sydd ar gael gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Mae'r ffurflen apêl ar gael ar-lein; defnyddiwch y ddolen isod. Cysylltwch â'n swyddfa os oes arnoch angen copi caled. Cyn llenwi'r ffurflen apêl, darllenwch ein cyfarwyddyd ar Atodiad 01 " [Sut i gwblhau a chyflwyno eich apêl](#)"

<http://gov.wales/topics/planning/appeals/appeal-guidance-and-information/advertisement-appeals/?skip=1&lang=cy>

4.2 Caiff y TRN ei atal dros dro hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu ar yr apêl neu hyd nes y bydd yr apêl yn cael ei thynnu'n ôl.

## **5. Gweithdrefn**

5.1 Mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo'r swyddogaethau apêl i Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Mae'r gweithdrefnau wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017, yn benodol Rhan 4 (Cynrychiolaethau Ysgrifenedig) Rheoliad 22. Mae rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau ar gael yn [Atodiad 02 – Gweithdrefnau](#).

